# Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

**2023 dsc 1**

## RHAN 3

CAFFAEL CYHOEDDUS CYMDEITHASOL GYFRIFOL

## PENNOD 2

DYLETSWYDD CAFFAEL CYMDEITHASOL GYFRIFOL

*Cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol a chod ymarfer allanoli gwasanaethau cyhoeddus*

PROSPECTIVE

### 33 Cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol mewn contractau allanoli gwasanaethau

Rhaid i'r cod allanoli gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithlu gynnwys cymalau contract enghreifftiol ("cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol") sydd, yn benodol—

(a) wedi eu cynllunio i sicrhau y bydd aelodau o staff a gyflogir gan awdurdodau contractio i ddarparu'r gwasanaethau, neu gyflawni'r swyddogaethau, sydd i'w hallanoli yn cael eu cyflogi, os ydynt yn dymuno, gan y person sy'n darparu'r gwasanaethau hynny, neu sy'n cyflawni'r swyddogaethau hynny, pan gânt eu hallanoli ("staff sy'n trosglwyddo");

(b) wedi eu cynllunio i ddiogelu telerau ac amodau cyflogaeth a threfniadau pensiwn staff sy'n trosglwyddo;

(c) wedi eu cynllunio i sicrhau nad yw telerau ac amodau aelodau eraill o staff a gyflogir gan y person sy'n darparu'r gwasanaethau, neu sy'n cyflawni'r swyddogaethau, sy'n ymwneud â darparu'r gwasanaethau hynny,

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 29/07/2023. Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, Adran 33. (See end of Document for details)*

neu gyflawni'r swyddogaethau hynny, yn llai ffafriol ar y cyfan na thelerau ac amodau'r staff sy'n trosglwyddo, a bod trefniadau pensiwn yr aelodau eraill o staff hynny yn rhesymol;

(d) yn gwneud darpariaeth atodol i'r materion y cyfeirir atynt ym mharagraffau (a) i (c).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 33 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 48(1)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 29/07/2023. Mae’r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, Adran 33.